CBAC
WJEC

**TAG UG/Uwch**

1383/01

# CYMRAEG AIL IAITH
# *(WELSH SECOND LANGUAGE)*
# CA3

## DEFNYDDIO'R IAITH A BARDDONIAETH

P.M. DYDD IAU, 19 Mai 2011

*P.M. THURSDAY, 19 May 2011*

2 Awr

*2 Hours*

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

***ADDITIONAL MATERIALS***

*In addition to this examination paper you will need an 8 page answer book.*

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac Adran B.
Dylech dreulio **AWR** ar bob adran.

***INSTRUCTIONS FOR CANDIDATES***

*Answer **all** questions in Section A and Section B.*
*You should spend **1 HOUR** on each section.*

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

**Ni** chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron.

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks allocated for each question or part-question is given in brackets.*

*Copies of the poetry and dictionaries are **not** permitted.*

## ADRAN A

### Defnyddio'r Iaith

**1.** Lluniwch frawddegau **(un frawddeg yr un)** i ddangos yn eglur ystyr y priod-ddulliau a'r geiriau tebyg canlynol: [20]

(i) o ddrwg i waeth

(ii) o'r golwg

(iii) gwneud ei gorau glas

(iv) ar gael

(v) ar fy mhen fy hun

(vi) unwaith ac am byth

(vii) gwenu o glust i glust

(viii) gwneud y tro

(ix) ei

(x) eu

**2.** Ail-ysgrifennwch y brawddegau canlynol gan gywiro'r gwallau sydd wedi'u tanlinellu. [20]

*(a)* Gofynnwch i fe am y llyfr.

*(b)* Maen nhw ddim yn gwybod yr ateb.

*(c)* Dyna'r ferch pwy sy'n canu yn y cyngerdd.

*(ch)* Dylai nhw wybod yr ateb.

*(d)* Rwy'n gwybod bod ti'n bwriadu mynd.

*(dd)* Clywais am hi ddoe.

*(e)* Mae'r plentyn yn ddwy blwydd oed.

*(f)* Ydych chi wedi siarad i hi?

*(ff)* Roedd i wedi gweld y ffilm o'r blaen.

*(g)* Hoffwn i fynd yn fwy aml i lân y môr eleni.

**3.** Dychmygwch mai chi yw swyddog y Gymraeg yn eich ardal. Gan ysgrifennu'n bersonol, **ysgrifennwch adroddiad** yn disgrifio'r gwahanol weithgareddau Cymraeg sydd ar gael i bobl ifanc yn eich ardal.
*Ysgrifennwch tua un ochr tudalen.* [20]

Gallwch sôn am:

- y gweithgareddau Cymraeg yn eich ysgol chi, e.e. teithiau i wersylloedd Llangrannog a Glanllyn, i'r theatr a sioeau cerdd Cymraeg
- y gwahanol fudiadau, e.e. clybiau pobl ifanc, yr Urdd, clwb Ffermwyr Ifanc
- ysgolion Cymraeg yr ardal.

Cofiwch ddisgrifio'r gweithgareddau yn ofalus. Rhoddir marciau am ysgrifennu'n gywir. Cynlluniwch eich gwaith yn ofalus cyn dechrau.

## ADRAN B

### Barddoniaeth

**4.** Darllenwch yn ofalus y penillion canlynol o'r gerdd *Ailgylchu* gan Grahame Davies ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn:

Â'r peiriant yn blingo planed
i stwffio storfeydd fel hyn,
'dwi'n amau'n wir pam 'dwi'n casglu
degwm o'r teilchion
i'w hoffrymu yn ôl.
Ai dim ond i gadw'r olwynion dur i droi
am ddegawd arall o ddifrod?

Ar y bryniau uwchben y cwm
mae llafnau'r melinau gwynt yn troelli:
olwynion pyllau newydd y cymoedd hyn
yn pladuro prydferthwch;
cyfalaf yn cloddio awyr
fel y gwaedwyd y bryniau glo,
am elw estron bob tro.

*(a)* Gosodwch y penillion **uchod** yn ei gyd-destun. [20]

Disgrifiwch:

- yr hyn y mae'r bardd yn ei ddweud **cyn** y penillion hyn
- yr hyn y mae'r bardd yn ei ddweud **ar ôl** y penillion hyn
- yr hyn y mae'r bardd yn ei ddweud **yn** y penillion hyn

*(b)* Nodwch arddull y penillion **uchod**. Rhowch eich barn am effaith y technegau hyn. Dylech nodi: [20]

- mesur y gerdd
- hyd y llinellau
- yr odl
- gwahanol dechnegau megis
  - delweddau
  - cyflythreniad
  - iaith.

*(c)* Rhowch eich ymateb personol i'r gerdd hon a'i phwnc. **Peidiwch ag ailadrodd y cynnwys na thrafod yr arddull**. [20]